**Cofnodion Pwyllgor Rhanbarth y Canolbarth**

**Dyddiad :** Dydd Gwener, Rhagfyr 3 1999

**Amser:** 10.30 am

**Lleoliad:** Theatr Brycheiniog, Aberhonddu

**Presennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Glyn Davies, Cadeirydd | Ceidwadwr | Canol a Gorllewin Cymru |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canol a Gorllewin Cymru |
| Elin Jones | Plaid Cymru | Ceredigion |
| Alun Michael | Llafur | Canol a Gorllewin Cymru |
| Kirsty Williams | Democratiaid Rhyddfrydol | Brycheiniog a Maesyfed |

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor:**

| | |
|---|---|
| Delyth Thomas | Clerc Pwyllgor |
| Brian Duddridge | Dirprwy Glerc Pwyllgor |
| Ian Dawes | Staff Cymorth |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Trefaldwyn |
| Nick Bourne | Ceidwadwr | Canol a Gorllewin Cymru |

**Eilyddion:** Dim

**Datganiadau Diddordeb**: Dim

**Sylwadau Agoriadol**

Diolchodd y Cadeirydd i Theatr Brycheiniog am ganiatâd i ddefnyddio ei chyfleusterau. Estynnwyd croeso arbennig i Richard Livsey, AS Brycheiniog a Maesyfed, a disgyblion Ysgol Gynradd Llangors.

Gofynnodd y Cadeirydd am newid cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ym Machynlleth er mwyn cofnodi ymddiheuriadau Nick Bourne am ei absenoldeb.

**Eitem 1 Bwyd Organig**

1.1 Gwahoddodd y Cadeirydd Roger Williams, Cadeirydd Grðp Bwyd-Amaeth Rhanbarthol y Canolbarth, i drafod ffermio organig a oedd yn destun papur ar y cyd a gyflwynwyd i'r Pwyllgor. Hefyd yn bresennol yr oedd Wynfford James, Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Datblygu Bwyd Cymru; Gareth Rowlands, Cadeirydd Grðp Strategaeth Organig; a Nick Lampkin o Sefydliad Astudiaethau Cefn Gwlad Cymru, Aberystwyth.

1.2 Amlinellodd Mr Williams strwythur, personél a swyddogaethau Partneriaeth Bwyd-Amaeth Rhanbarthol Cyfarwyddiaeth Bwyd Awdurdod Datblygu Cymru. Nod y bartneriaeth oedd cyd-drefnu cyflenwyr sector cyhoeddus yn y Canolbarth a sicrhau nad oedd yno unrhyw ddyblygu gwaith a bylchau. Roedd y Canolbarth yn derbyn amrywiaeth o grantiau Ewropeaidd, o Amcan 5b ac Amcan 1 a 2 arfaethedig, ond mewn rhai ardaloedd nid oedd yno unrhyw ariannu o gwbl, gan greu anawsterau wrth lunio a chyflenwi strategaeth gydlynus.

1.3 Roedd angen i ffermwyr wella eu harbenigedd wrth farchnata eu cynnyrch i ddefnyddwyr a manwerthwyr. Roedd angen i'r diwydiant wella ei fewnbwn i'r sector prosesu bwyd ac ychwanegu gwerth i gynhyrchu bwyd o fewn eu cymunedau.

1.4 Nod gyffredinol y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth oedd ychwanegu gwerth trwy:

- ddatblygu busnes;
- marchnata a hyrwyddo;
- datblygu ffermydd; a
- chasglu gwybodaeth ac ymchwil.

1.5 Eglurodd Gareth Rowlands fod ffermio organig yn flaenllaw iawn mewn amaeth a allai ddarparu pwynt manwerthu ar gyfer cynnyrch â brand Cymreig. Er hynny, fe amlygodd nifer o bryderon:

- yr oedd yn bosib cyflawni'r targedau ar gyfer 2005 ond roedd yr amserlen wedi llithro;
  - nid oedd disgwyl penderfyniad ar ddatblygu Canolfannau Rhagoriaeth tan fis Mehefin 2000;
- efallai na fyddai manwerthwyr yn aros i Gymru ddal i fyny gyda gweledydd eraill yn Ewrop;
- nid oed ddigon o sylw yn cael ei roi i brosesu a chynhyrchu, roedd cynhyrchu yng Nghymru y tu ôl i Loegr a'r Alban.

1.6 Roedd angen i'r diwydiant yng Nghymru:

- ddatblygu brand Cymreig hawdd ei adnabod;
- amlygu manteision ffermio organig i’r amgylchedd;
- darparu cefnogaeth i ffermwyr, yn enwedig y niferoedd cynyddol o ffermwyr rhan amser; a
- hyrwyddo Cymru fel canolfan rhagoriaeth ar gyfer bwyd gan ddefnyddio diwydiannau cysylltiedig megis twristiaeth.

1.7 Cyfeiriodd Dr Lampkin at y papur a gyflwynwyd ganddo ar y cyd gyda Gareth Rowlands. Yr oedd o'r farn bod datblygu cefn gwlad ac amddiffyn yr amgylchedd yn ddadleuon proffil uchel o blaid ffermio

organig. Atgyfnerthwyd statws a diogelwch marchnadoedd ffermio organig gan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

1.8 Rhoddodd grynodeb o brif bwyntiau ei bapur gan gynnwys yr angen i bennu safonau cynhyrchu – a fyddai'n cydnabod yr angen am gysondeb mewn ardystio ar draws Ewrop; mewn sawl achos yr oedd cynhyrchu organig y DU yn destun safonau cynhyrchu uwch na'r rhai a bennwyd gan reoliadau Ewropeaidd, roedd angen i UKROFS sicrhau nad oedd y safonau a osodwyd yn rhoi cynhyrchwyr y DU dan anfantais gystadleuol; archwilio ac ardystio – yr oedd yno ddau gorff yng Nghymru sef y *Soil Association* a'r *Organic Farms and Growers*, er mwyn osgoi dryswch byddai un corff yn cynorthwyo i greu hunaniaeth organig Cymreig, yr oedd yno hefyd brinder archwilwyr hyfforddedig a chymwys; lledaenu arfer dda – yr oedd angen gwella'r mynediad at gyngor ffermio organig a'r defnydd ohono ac roedd angen arolwg ansawdd o OCIS, a oedd yn llwyddiannus; hyrwyddo a marchnata bwyd organig – er mwyn "ychwanegu gwerth" roedd angen i Gymru ymwneud â phob cam o gynhyrchu, prosesu, marchnata a chyflenwi bwyd organig, roedd yno botensial sylweddol am ehangu yn y dyfodol, roedd y farchnad wedi tyfu'n gyflym ac roedd manwerthwyr wedi ymateb i'r galw ond roedd lle i wella ar yr amrediad o gynnyrch.

1.9 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr. Gofynnodd a oedd gan Gymru hunaniaeth benodol ym maes ffermio organig ac a oedd yn cystadlu'n uniongyrchol yn erbyn gweddill y DU. Dywedodd Mr Rowlands fod Cymru yn cael ei hystyried gyda Lloegr ond gan fod cyfran cymharol uchel o ffermwyr Cymru naill ai wedi troi neu yn y broses o droi at ffermio organig, roedd gan Gymru'r potensial i ymdrin â gofynion manwerthwyr a defnyddwyr a chyflwyno ei hunaniaeth ei hun.

1.10 Ymysg y pwyntiau eraill a godwyd yn y drafodaeth yr oedd:

- yr angen am gynllun cymorth cynhwysfawr ar gyfer ffermwyr organig;
- a oedd yno adnoddau ariannol digonol ar gyfer y ffermwyr hynny oedd naill ai wedi troi neu yn y broses o droi at ffermio organig;
- a ddylai cynllun mentora ddarparu cymorth ychwanegol i ffermwyr oedd wedi troi at ffermio organig;
- a oedd y farchnad yn gallu cynnal ffermio organig;
    - roedd dilyniant ac unffurfiaeth o ran cefnogaeth yn bwysig, cydnabyddwyd serch hynny y gallai hyn fod yn anodd oherwydd dosbarthiad anwastad arian arfaethedig Amcan 1 ac Amcan 2;
    - a welwyd unrhyw broblemau wrth sefydlu'r Ganolfan Rhagoriaeth; pam nad oedd fawr o sôn am y sectorau amaethyddol o fewn ffermio organig, yn enwedig y sectorau cig eidion, da byw a defaid;
    - a oedd yno sector rhannol organig h.y. hanner ffordd rhwng cynhyrchu organig a chynhyrchu confensiynol;
    - a oedd rhai amgylcheddau ffermio yn wynebu anfantais ac yn ddiffygiol o safbwynt ffermio organig;
    - y berthynas rhwng Tir Gofal a ffermio organig;
    - a oedd yno brosiectau ar waith a allai fanteisio ar arian Amcan 1 wrth i'r arian ddod ar gael.

1.11 Teimlai'r cyflwynwyr fod yno anghydbwysedd posib mewn ariannu gan fod rhai ardaloedd yn dod o dan ariannu Amcan 1 a 2 tra bod ardaloedd eraill efallai'n derbyn dim. Yr oedd angen cefnogaeth gyson a chynhwysfawr. Yr oedd dy farchnad yn gallu cynnal ffermio organig ond roedd angen canfod cydbwysedd rhwng cefnogaeth ariannol a'r manteision.

1.12 Yr oedd digon o arian ar gael hefyd i ffermwyr oedd wedi troi at ffermio organig ac fe ddylai'r ariannu hynny barhau. Byddai enw da ffermio organig yn elwa serch hynny o archwilio ac arolygu priodol. Byddai mecanwaith y Ganolfan Ragoriaeth yn darparu cyfleon ar gyfer datblygu a mentora fel y rhai a sefydlwyd eisoes gan Gymdeithas y Ffermwyr Ifainc ac Ymddiriedolaeth y Tywysog.

1.13 Mae lle i gryfhau'r berthynas rhwng twristiaeth a bwyd, yr oedd rhannau o'r Almaen a'r Eidal wedi hybu eu delwedd organig yn llwyddiannus trwy gyfrwng twristiaeth. Nodwyd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog fel esiampl o fanteision cyfuno twristiaeth gyda datblygu'r gymuned ffermio leol.

1.14 Nid oedd yno lwybr hanner ffordd rhwng ffermio organig a ffermio confensiynol, rhoddwyd cynnig ar ddull o'r fath ond methodd. Yr oedd y rhan fwyaf o'r arbenigedd a'r datblygiadau ar gael yn y sector llaeth organig ond roedd angen i bob sector ehangu, ac roedd y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth yn canolbwyntio ar hyn.

1.15 Roedd rhai ffermwyr dan yr argraff bod ffermio organig yn fygythiad, a bod rhai oedd yn ffermio ardaloedd yr ucheldiroedd dan anfantais, er hynny yr oedd Prosiect Pwllpeirian yn dangos bod ffermio organig yn bosib mewn amgylcheddau anoddach.

1.16 Swyddogaeth allweddol y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth rhanbarthol oedd cyflenwi a darparu cymorth i ddatblygu prosiectau ar gyfer arian Amcan 1. Bwriedir cynnal cyfarfod yn fuan er mwyn sefydlu fframwaith, a fyddai'n cynnwys cynlluniau lleol fel rhan allweddol o strategaeth ganolog.

1.17 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am sesiwn oedd yn cynnig digon i gnoi cil arno. Yr oedd ffermio organig yn bwnc pwysig yng Nghymru ac ar ôl casglu'r ymatebion i'r ymgynghoriad byddai'n eu hanfon ymlaen ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor at Gadeiryddion Pwyllgorau Amaeth a Datblygiad Gwledig a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd, ac Ysgrifenyddion perthnasol y Cynulliad. Byddai'r mater yn cael ei gynnwys yn ei adroddiad blynyddol ar waith Pwyllgor y Canolbarth.

**Eitem 2 Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog**

2.1 Croesawodd y Cadeirydd Martin Fitton, Swyddog y Parc Cenedlaethol, ac atgoffwyd y Pwyllgor ganddo fod eleni'n cofnodi pen-blwydd y Parciau Cenedlaethol yn hanner cant. Yn y cyfnod hwnnw mae eu diben wedi newid, a bellach dau o'r prif feysydd ar gyfer ystyriaeth oedd twristiaeth a datblygiad cynaliadwy. Yr oedd Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog yn ymestyn dros 520 milltir sgwâr ac roedd ei 100 aelod o staff yn gweithio'n agos gyda'r 9 awdurdod unedol ar draws ystod o swyddogaethau statudol. Yr oedd y Cynulliad Cenedlaethol wedi cyfrannu £1.7m o gyfanswm ei gyllideb, ac roedd y gweddill yn dod o'r awdurdodau cyfansoddol, amrywiaeth o grantiau a pheth ariannu gan Loteri'r Mileniwm.

2.2 Prif amcanion y Parc oedd:

- hyrwyddo twristiaeth a hwyluso mwynhad y cyhoedd o'r tirlun;
- amddiffyn ei harddwch naturiol a darparu help a chyngor i'r rhai oedd yn byw, gweithio ac ymweld â'r ardal;
- hwyluso adfywiad cefn gwlad a datblygiad cynaliadwy;
- cyflawni ei rôl fel awdurdod cynllunio, cymeradwywyd cyfran fawr o geisiadau gan y Parc o ganlyniad uniongyrchol i'r amser a roddwyd i ymgynghori a thrafod gydag ymgeiswyr;
- adfywio'r amgylchedd a hefyd ennill cydbwysedd rhwng datblygiad a chadwraeth; a
- bod yn ymwybodol o gymunedau lleol, eu hanghenion a'u buddiannau a'u cynnwys mewn

cynlluniau datblygu lle bynnag yr oedd hynny'n bosib – yr oedd y lladd-dy symudol yn enghraifft o ddatblygiad lleol arloesol.

2.3 Ymysg y materion a godwyd yn ystod y drafodaeth yr oedd y canlynol:

- yr angen am fframwaith cynllunio ar gyfer datblygiad cynaliadwy;
- ble byddai rhaglen ynni adnewyddadwy yn ffitio i strategaeth Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog;
- perthynas Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog gyda Pharciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru;
- beth oedd yn cael ei wneud i hyrwyddo llwybrau mynediad i mewn i'r Parc, yn enwedig yn ardaloedd gorllewinol y Parc;
- pam nad oedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ennill aelodau trwy eu hethol yn uniongyrchol o'r boblogaeth leol, yn unol ag argymhellion y Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na thrwy benodiad;
- effaith ariannu Amcan 2 ar y Parc gan nad oedd rhan helaeth o'r Parc wedi ei chynnwys;
- datblygiad effaith isel mewn cefn gwlad agored;
- mynediad cyhoeddus trwy gytundeb gyda thirfeddianwyr neu drwy ddeddfwriaeth;
- y berthynas gyda'r rhai oedd yn byw yn y Parc.

2.4 Yr oedd Mr Fitton am i Barciau Cenedlaethol Cymru fod yn esiampl i weddill Ewrop ond gyda'r cyllid oedd ar gael roedd y Parc yn ymdrechu i gyrraedd y lefel ofynnol o ddatblygiad cynaliadwy. Gyda golwg ar ffynonellau ynni ee ynni gwynt roedd angen cadw cydbwysedd rhwng cynnal tirlun hardd a hyrwyddo ynni adnewyddadwy. Roedd yn hanfodol bod y Parciau yn cynyddu lefel ymwneud lleol.

2.5 Yr oedd ffin orllewinol y Parc yn cael eu hannog fel "ardal anial" ac roedd yna bryderon bod hyn dan fygythiad. Fel perchennog llawer o dir comin yr oedd y Parc yn gweithio i'w rheoli mewn modd effeithiol gyda'r rhai oedd yn byw ar y tiroedd comin. Roedd yn dynodi pwyntiau mynediad a'r bwriad oedd bod mynediad ar gael i'r holl dir comin, yr oedd y Parc hefyd yn edrych ar ei strategaethau llwybrau cerdded er mwyn cynyddu mynediad.

2.6 Mynegodd Mr Fitton farn bersonol y byddai etholiadau uniongyrchol yn fanteisiol ac yn boblogaidd gyda phobl leol. Cadarnhaodd bod twristiaeth yn hanfodol ar gyfer adfywio cefn gwlad ond mynegodd bryder nad oedd strwythur Bwrdd Croeso Cymru yn gallu datblygu'r achos marchnata. Yr oedd y rhan fwyaf o ymwelwyr yn ymwelwyr am y diwrnod, ac roedd angen datblygu'r farchnad ymwelwyr oedd yn aros dros nos. Er mwyn cynllunio'n llwyddiannus yr oedd angen buddsoddi adnoddau digonol yn ystod y camau ymgynghorol. Un o'r anawsterau wrth gyd-drefnu rhaglen gadarn o ariannu gan yr Undeb Ewropeaidd oedd bod ardaloedd gwahanol yn derbyn lefelau gwahanol o gymorth. Yr oedd angen adolygu'r broses gynllunio gyfredol yn drylwyr gan ei bod wedi dyddio a'i gwneud yn berthnasol i anghenion economaidd a chymdeithasol heddiw. Cytunodd gyda'r Cadeirydd bod angen datblygu datblygiadau "effaith isel" yn enwedig lle'r oeddynt yn cyfrannu at yr economi lleol. Yr oedd strategaeth y Parc Cenedlaethol yn pwysleisio'r angen i ddatblygu cyfleon swyddi mewn pentrefi o bosib trwy ddefnyddio adeiladau fferm oedd yn segur.

2.7 Yr oedd ofn ffermwyr ar lawer o bobl ond roedd gan ffermwyr hefyd hawliau ac roedd yn bwysig bod ymwelwyr i'r Parc a'r tirfeddianwyr yn cael eu haddysgu ynghylch anghenion a hawliau ei gilydd. Yr oedd angen gwneud mwy o waith i wella'r berthynas hon trwy gynyddu ymwybyddiaeth.

2.8 Yr oedd y Parc Cenedlaethol wedi gwneud ymdrech fawr i wella’r berthynas gyda rhai oedd yn byw o fewn ei ffiniau ond o dro i dro roedd ei ddelwedd gyhoeddus yn wael. Yr oedd y Parc o'r farn bod ymwneud lleol yn bwysig iawn a byddai’n parhau i weithio er mwyn gwella ei berthynas gyda chymunedau lleol.

2.9 Diolchodd y Cadeirydd i Mr Fitton am ei gyflwyniad.

**Eitem 3: Blaenraglen Waith**

3.1 Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Bwriedir cynnal sioe deithiol er mwyn ymgynghori ar "Ddatblygiad Cynaliadwy" ar **Chwefror 4ydd, 2000** yng Ngholeg Powys, Y Drenewydd.
- Cytunwyd y byddai'r **cyfarfod nesaf** yn cael ei gynnal yn Ysgol y Moelwyn, Blaenau Ffestiniog ar **Fawrth 10fed**.
- Byddai'r Agenda ar gyfer y cyfarfod yn cynnwys:

    'Lleihau Troseddau yn y Gymuned Wledig" a byddai Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys ac Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru yn cael eu gwahodd i wneud cyflwyniadau.

- Cytunwyd y dylid manteisio ar y posibilrwydd o gynnal cyfarfod pellach ar **Ebrill 7ed** pan fyddai "Strategaeth Trafnidiaeth Integredig ar gyfer y Canolbarth" yn cael ei thrafod;
- Awgrymwyd y dylid gwahodd cyrff cyhoeddus i fynychu cyfarfodydd pan fyddai eu polisïau ar gyfer y Canolbarth yn cael eu harchwilio. Cytunwyd caniatáu digresiwn i'r Cadeirydd benderfynu pa gorff cyhoeddus ddylai dderbyn gwahoddiad.

**Eitem 4: Sylwadau gan y Cyhoedd**

4.1 Gwnaed y sylwadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Awyrennau’n Hedfan yn Isel | Mr Dixon |
| Dynodi Adeiladau fferm nad ydynt yn cael eu defnyddio fel safleoedd "tir brown" | Mr John Hopkins |
| Cynhyrchu Bwyd Organig a Chynaliadwy | Dr Paul Benham |

4.2 Mae copïau o'r papurau a ddarparwyd gan y cyflwynwyr i gefnogi eu cyflwyniadau wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

**Eitem 5: Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf**

5.1 Cytunwyd ar y rhain yn amodol ar newid yn ymwneud ag absenoldeb Nick Bourne.

**Atodiad 1**

**Mr Dixon**

Ni ddarparwyd papur, siaradodd Mr Dixon ar ran Mr a Mrs Wood o Aberhonddu. Mae eu llythyr gwreiddiol yn cael ei atgynhyrchu yma.

Ychwanegodd Mr Dixon fod trigolion wedi cwyno wrth y Weinyddiaeth Amddiffyn fod yr arfer o hedfan yn isel, nid yn unig gan y Llu Awyr Brenhinol ond gan luoedd awyr eraill, wedi'i danseilio trwy brofiad diweddar yn Nghosofo. Nid oedd yr ymateb a dderbyniwyd gan yr Adran honno wedi bod o unrhyw fudd.

**Mr John Hopkins**

Bûm yn byw yn yr ardal hon ar hyd fy oes. Yn ystod yr amser hwnnw, gydag un neu ddau eithriad nodedig megis y Drenewydd, rwyf wedi gweld Canolbarth Cymru'n troedio yn ei hunfan, yn dirywio'n raddol ac, yn araf deg a fesul tipyn, yn marw ar ei thraed yn economaidd.

Fy nadl yw y dylai'r system gynllunio trefi gael ei hwyluso er mwyn caniatáu lefel uwch o ddatblygiad a thwf economaidd nag a ddigwyddodd yn y gorffennol.

2 neu 3 wythnos yn ôl, fel cynghorydd cymuned mynychais gyfarfod a gynhaliwyd gan Adran Gynllunio Cyngor Sir Powys. Maent wrthi'n mynd trwy'r camau cychwynnol o greu Cynllun ar gyfer Strwythur Cynllunio Trefi.

Yn ystod y cyfarfod gofynnodd cynrychiolydd o Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a oedd cynllunwyr Powys yn meddwl y dylid ystyried ffermydd diddefnydd fel safleoedd tir brown o safbwynt cynllunio, yn hytrach na safleoedd tir glas.

Atebodd y cynlluniwr o Gyngor Powys y DYLID, oherwydd roeddent wedi cael eu datblygu yn y gorffennol. Parhaodd gan ddweud iddo gredu bod y fath Arweiniad Cynllunio wedi'i roi eisoes yn Lloegr, ond hyd y gwyddai ef nid oedd y fath arweiniad wedi'i drafod gan Gynulliad Cymru.

Roedd wedi; mae Cynllunwyr yr Awdurdod yn meddwl ei fod yn syniad da, ac mae o leiaf rai yn awdurdod y Parc Cenedlaethol yn credu ei fod yn syniad da – a Duw a wþr na allwch gytuno ar ddim byd gyda'r dynion hyn fel arfer, felly dylai rhywun ddadlau'r mater ymhellach.

Rwyf yn sicr bod pawb ohonoch wedi syrffedu ar glywed bod argyfwng yn y diwydiant amaeth. Ond mae newidiadau strwythurol yn dechrau digwydd. Ni welais erioed gymaint o ffermydd ar werth a chymaint o bobl yn rhoi'r gorau iddi, ag y gwelais yr hydref yma. Yn wir, awgrymwyd gan rai y dylai nifer y ffermwyr ostwng, er mwyn caniatáu i ffermydd gyfuno ac i faint ffermydd ar gyfartaledd godi i bwynt lle y gallant gynnig incwm cynaliadwy.

Er mwyn aros yn y diwydiant amaeth bydd yn rhaid i ffermwyr fod yn effeithlon. Dim ond y rheini sy'n addasu fydd yn gallu parhau yn y dyfodol. Dim ond adeiladau modern all storio peiriannau modern a chwrdd â gofynion lles modern. Bydd bron yn amhosibl defnyddio llawer o hen ysguboriau a hen ffermydd traddodiadol mewn modd economaidd. Mewn gwirionedd mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y ffermydd nad oes eu hangen, neu nad ydynt yn addas ar gyfer amaethyddiaeth.

Ledled y wlad mae llawer o'r safleoedd hyn, mewn pentrefi neu'n agos iddynt; a rhyngddynt gallant fod yn adnodd adeiladu gwerthfawr. Trwy ystyried y safleoedd hyn fel safleoedd tir brown o safbwynt cynllunio, yn hytrach na safleoedd tir glas fel y'u hystyrir ar hyn o bryd, gellid meddwl amdanynt fel safleoedd a

ddatblygwyd eisoes. Felly gellid rhoi blaenoriaeth iddynt yn lle defnyddio caeau a phorfeydd sydd heb eu datblygu mewn gwirionedd.

Rwyf yn eich annog i ystyried yr awgrym hwn. Byddai'n rhoi hwb i ddiwydiant mewn anhrefn, ac yn ogystal byddai trawsnewid ac adfer gofalus yn golygu y byddai llawer o hen adeiladau fferm yn cael eu cadw. Fel arall byddai llawer o'r adeiladau hyn yn dirywio ac yn dadfeilio. Os nad ydynt o ddefnydd i amaethyddiaeth fodern, ni fydd llawer o ffermwyr yn fodlon gwario arian i'w cadw a'u cynnal.

I gloi felly, dyma fy mhwynt. Gallai'r system gynllunio trefi, pe câi ei harwain yn gywir, ganiatáu defnydd gwell o ffermydd diangen, a fyddai'n ychwanegu at harddwch gweledol yr ardal. Ar yr un pryd byddai'n lleihau pwysau datblygiad ar gaeau a phorfeydd gwirioneddol las sydd heb eu datblygu.

Efallai nad yw Cymru'n wynebu'r pwysau datblygiad a wynebir gan rai o ranbarthau Lloegr, ond mae gennym dirwedd harddach fyth. Yn fy marn i, byddai'r awgrymiadau hyn yn helpu i gadw a chynnal y dirwedd hon, gan gyfrannu ychydig at newid y system gynllunio er mwyn rhoi cyfle i ddatblygiad a thwf economaidd, rhywbeth y mae Cymru wledig wir ei angen.

Byddai newid y statws cynllunio'n arwain at ddatblygiad newydd.

Fodd bynnag, nid yw pob rhan o fferm yn ysguboriau hanesyddol, fe fydd, ac fe ddylai fod lle ar gyfer tai modern ar y safle, tai ar gyfer pobl sy'n gweithio yn yr ardal leol, oherwydd yn y pen draw dyma'r bobl sy'n darparu gwir economi a chymeriad ardal.

**<u>Dr Paul Benham (Ychwaneger y llythyr)</u>**